

PWYLLGOR CRAFFU ADDYSG A PHLANT

Dydd Mercher, 17 Mawrth 2021

YN BRESENNOL: Y Cynghorydd D. Price (Cadeirydd)

Y Cyngorwyr:

S.M. Allen, L.R. Bowen, K.V. Broom, D. Jones, G.R. Jones, M.J.A. Lewis,
E.M.J.G. Schiavone, B. Thomas, E.G. Thomas a/ac D.T. Williams

Aelodau Cyfetholedig:

A. Enoch - Rhiant-Lywodraethwr
V. Kenny - Cynrychiolydd yr Eglwys Gatholig
Y Parch. D. Richards - Cynrychiolydd yr Eglwys yng Nghymru

Hefyd yn bresennol:

Y Cynghorydd G. Davies, Aelod y Bwrdd Gweithredol dros Addysg a Phlant

Yr oedd y swyddogion canlynol yn gwasanaethu yn y cyfarfod:

G. Morgans, Cyfarwyddwr Gwasanaethau Addysg a Phlant
A. Rees, Pennaeth Cwricwlwm a Llesiant
A Thomas, Pennaeth Gwasanaethau Addysg a Chynhwysiant
S. Davies, Pennaeth Mynediad i Addysg
S. Smith, Pennaeth Gwasanaethau Plant
C. Griffiths, Rheolwr Datblygu'r Gymraeg
M. Evans Thomas, Prif Swyddog Gwasanaethau Democrataidd
R. Lloyd, Swyddog Gwasanaethau Democrataidd
S. Rees, Cyfieithydd Ar Y Pryd,
J. Corner, Swyddog Technegol

Rhith-Gyfarfod - 10.00 - 11.55 yb

1. YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

Cafwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan y Cynghorydd D.M Jenkins, yr Aelod o'r Bwrdd Gweithredol dros Adnoddau.

2. DATGANIADAU O FUDDIANNAU PERSONOL GAN GYNNWYS UNRHYW CHWIPIAU PLEIDIAU A RODDIR MEWN YMATEB I UNRHYW EITEM AR YR AGENDA.

Cafwyd y datganiadau canlynol o fuddiant personol:-

Yr Aelod	Rhif y Cofnod(ion)	Math o Fuddiant
Y Cynghorydd Darren Price (Cadeirydd)	4. Diweddariad am y Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg (WESP)	Buddiant personol a rhagfarnol - mae ei wraig yn ddarlithydd Cymraeg ym Mhrifysgol y Drindod Dewi Sant lle cynhelir y cwrs sabothol.
Y Cynghorydd Bill Thomas	4. Diweddariad am y Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg (WESP)	Mae'n Llywodraethwr AALI yn Ysgol y Felin.

Ni chafwyd dim datganiadau ynghylch chwipiaid y pleidiau.

3. **CWESTIYNAU GAN Y CYHOEDD (NID OEDD DIM WEDI DOD I LAW)**

Dyweddodd y Cadeirydd nad oedd dim cwestiynau wedi dod i law gan y cyhoedd.

4. **DIWEDDARIAD WESP**

[NODER:

(1) Roedd y Cynghorydd B. Thomas wedi datgan buddiant yn yr eitem hon yn gynharach;

(2) Gadawodd y Cynghorydd D. Price, y Cadeirydd, y cyfarfod cyn bod yr eitem hon yn cael ei hystyried a chyn penderfynu ar yr eitem hon gan ei fod wedi datgan buddiant rhagfarnol a phersonol ynndi'n gynharach.]


Rhoddodd y Pwyllgor ystyriaeth i adroddiad a oedd yn cynnwys y wybodaeth ddiweddaraf am y cynnydd o ran gweithredu Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg Sir Gaerfyrddin 2017-21. Roedd yr adroddiad hefyd yn rhoi gwybod i'r Pwyllgor am y datblygiadau disgwylidig ym maes polisi Llywodraeth Cymru.

Mae'r Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg presennol wedi cael ei ymestyn am flwyddyn, a bydd yn dod i ben ym mis Medi 2022 man hwyraf. Bydd y Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg nesaf yn gynllun 10 mlynedd hyd at 2031. Mae Llywodraeth Cymru wedi rhannu'r templed cynllunio a'r meini prawf gyda'r Awdurdodau Lleol. Mae hyn a datblygiadau ategol arfaethedig yn dangos y bydd rhai newidiadau nodedig sydd â goblygiadau penodol o ran gwneud penderfyniadau yn Sir Gaerfyrddin.

Codwyd y cwestiynau/sylwadau canlynol wrth drafod yr adroddiad:-

- Cyfeiriwyd at yr hyfforddiant sabothol a mewnol a gofynnwyd am ddatdamsoddiad o faint o staff sy'n cael yr hyfforddiant ac ar ba lefel. Dywedodd y Pennaeth Cwricwlwm a Llesiant fod Archwiliad o Sgiliau'r Iaith Gymraeg wedi'i gynnal yn ddiweddar ar gyfer yr holl staff. Roedd tua 758 o geisiadau wedi dod i law (ar 8.3.21) yn gofyn am gael cofrestru ar gyrsiau ieithyddol ar draws pob lefel gallu, gan nodi ar ba lefelau roeddent. Dywedodd Rheolwr Datblygu'r Gymraeg fod angen deall yr addysgeg yn y Cyfnod Sylfaen. Mae yna adnodd cyfannol sy'n edrych nid yn unig ar ddysgu iaith, ond hefyd ar addysgu a dysgu o fewn y Cyfnod Sylfaen yn ogystal â gyda rhieni. Bydd hyn yn cael i gynnig i ysgolion sy'n dymuno gweithio gyda ni wrth symud ar hyd y continwmm. Mae lefelau hyfedredd yn bwysig iawn ymhlith y staff addysgu. Hefyd mae staff yn dysgu ochr yn ochr â phlant bach iawn yn gallu bod yn gyfrwng pwerus mewn dysgu iaith.
- Gofynnwyd i swyddogion faint o'r £30m fydd ar gael ar gyfer hyfforddiant – dywedodd y Cyfarwyddwr ein bod yn gymwys i wneud cais am y grant cyfalaf o £30m ond ei fod yn deall mai ar gyfer adeiladu'n unig ydyw ac nid hyfforddiant, ond bod trafodaethau'n digwydd gyda Llywodraeth Cymru ynghylch referniw.
- Dywedodd Rheolwr Datblygu'r Gymraeg fod yr archwiliad o sgiliau'r iaith Gymraeg yn rhoi 1 trosolwg ar y Gymraeg ac yn fan cychwyn da ar gyfer cynllunio strategol.

- Esboniwyd pa gyrsiau oedd wedi'u cynnal a'u cwblhau gan athrawon yn ystod y cyfyngiadau symud ac ar ba lefel maent. Dywedodd yr Aelod o'r Bwrdd Gweithredol dros Addysg a Phlant fod adborth o'r cyrsiau wedi bod yn gadarnhaol iawn a bod Rheolwr Datblygu'r Gymraeg yn ymgynghori â'r ysgolion.
- Mynegwyd pryder ynglŷn â'r angen i fod yn gliriach ar yr iaith a ddefnyddir a nod yr ymgynghoriad cenedlaethol ar gategorïau. Dywedodd y Pennaeth Cwricwlwm a Llesiant fod y system newydd yn rhagweld tri phrif gategori (1, 2 a 3) gyda dau gategori trosiannol (T2 a T3) i hwyluso taith ddatblygiadol o un gategori i'r llall (gweler y diagram):



- Gofynnwyd pam yr oedd angen newid y Cwricwlwm yn ystod y cyfnod hwn. Dywedodd y Pennaeth Cwricwlwm a Llesiant fod hyn wedi dechrau 7 mlynedd yn ôl a bod cynigion gan Lywodraeth Cymru yn mynd i gael eu llywio gan Fil y Cwricwlwm cenedlaethol y byddai cyflwyno'r Gymraeg yn orfodol o 3 oed, gyda'r Saesneg yn orfodol o 7 oed (a chymryd bod y Bil yn cael Cydsyniad Brenhinol). Dywedodd y byddai'n cyflwyno awgrymiadau'r cyfarfod hwn yng nghyfarfod y Bwrdd Gweithredol y prynhawn yma.
- Beth yw'r llinell amser y cyfeirir ati ar dudalen 12 – Dywedodd yr Aelod o'r Bwrdd Gweithredol dros Addysg a Phlant fod popeth yn cael ei fonitro gennym ni yn ogystal â LIC, ac y byddai ymgynghoriad llawn ddiwedd y flwyddyn ar y Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg newydd cyn ei fabwysiadu. Ychwanegodd y Pennaeth Cwricwlwm a Llesiant mai parhad o'r Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg presennol yw bwriad yr un newydd, ac o'r cynnydd a wnaed yn y 4 blynedd diwethaf. Fe'i defnyddir fel llinell sylfaen a chaiff ei gyflwyno i Lywodraeth Cymru dim hwyrach na diwedd mis Ionawr 2022. Dywedodd y Cyfarwyddwr fod gwahanol fecanweithiau yr ydym yn adrodd iddynt ar wahanol gamau gweithredu o ran ein cynlluniau – mae proses fonitro ar waith a defnyddir y wybodaeth a gesglir fel tystiolaeth i adeiladu ar ein strategaeth.
- Esboniwyd sut y dylai'r holl Lywodraethwyr fod yn ymwybodol o Strategaeth Llywodraeth Cymru a cheisiwyd cadarnhad ynghylch hyfforddiant penodol i Lywodraethwyr o fewn y rhaglen hyfforddi, ac os felly, a fyddai'n orfodol? Dywedodd yr Aelod o'r Bwrdd Gweithredol dros Addysg a Phlant fod unrhyw newidiadau polisi ac ati yn cael eu cyflwyno i Lywodraethwyr a Phenaethiaid. Dywedodd y Cyfarwyddwr y gweithir gydag ysgolion yn rheolaidd a gall gadarnhau bod cynnydd yn cael ei wneud ym mhob ysgol a bod llawer o ysgolion wedi mabwysiadu'r siarter iaith, ethos a defnydd cyffredinol o'r iaith, ac ein bod yn gofyn i bob Corff Llywodraethu gynnwys datganiad ar ei dempled ar yr hyn y mae wedi'i wneud mewn perthynas â'r Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg i sicrhau eu bod yn gweithio tuag at y continwmm iaith gan sicrhau bod modd gwneud cynnydd.
- Gofynnwyd i swyddogion a oedd gan y Sir restr gyda dyddiadau penodol yn nodi pryd y dechreuodd trafodaethau gyda'r ysgol a chyda phwy? Cyfarfodydd/trafodaethau dilynol? Os na, a ellid cyflwyno hynny ac awgrymwyd ei gynnwys ar yr agenda bob tymor i'w drafod yn agored. Cytunodd yr Aelod o'r Bwrdd Gweithredol dros Addysg a Phlant â'r pwynt a godwyd a bod cofnod penodol o'r hyn sydd wedi digwydd, gyda phwy a phryd

roedd yn cyfarfod nesaf. Dywedodd y Cyfarwyddwr ei fod wedi bod yn adolygu'r broses i sicrhau bod tystiolaeth yn cael ei chofnodi ynghylch pwy sy'n ymwybodol o'r newidiadau ac ati ar y trafodaethau a gafwyd.

- Esboniwyd pa gymorth oedd ar gael i ddysgwyr. Dywedodd Pennaeth y Cwricwlwm a Llesiant fod Canolfannau Iaith wedi'u sefydlu yn y sir e.e. Maes y Gwendraeth / Canolfan Griffith Jones. Ailadroddodd Rheolwr Datblygu'r Gymraeg ei bod yn bwysig i ysgolion gyfathrebu â ni er mwyn hwyluso darpariaeth i hwyrddyfodiaid. Hefyd mae staff y Canolfannau Iaith yn gweithio gyda'r Tîm Derbyn i sicrhau dealltwriaeth dda o'r ddarpariaeth ieithyddol mewn ysgolion.
- Gofynnwyd sut roedd y fformiwla ariannu disgyblion yn ffafrio'r Gymraeg. Cadarnhaodd y Cyfarwyddwr fod y fformiwla ariannu'n cael ei llywio gan niferoedd disgyblion; fodd bynnag, mae rhai ychwanegion os yw'n ysgol ddwy ffrwd.
- Gofynnwyd i swyddogion am y broses bresennol ar newidiadau – mae angen iddi fod yn fwy agored a rhoi mwy o rybudd gan gyfathrebu â rhieni, staff, Llywodraethwyr a phawb y mae'r newidiadau'n berthnasol iddynt fel rhan o'r trafodaethau i wella'r system. Dywedodd y Cyfarwyddwr ein bod yn cydymffurfio â deddfwriaeth a bod y broses wedi'i hadolygu dros y misoedd diwethaf, a bod y modd y cyfathrebu â'r gymuned, staff, a Llywodraethwyr yn gwella, gan eu gwneud yn ymwybodol o newidiadau, a'n bod yn dilyn cyfeiriad Llywodraeth Cymru. Dywedodd y Pennaeth Cwricwlwm a Llesiant y bydd ymgynghoriadau cyhoeddus gyda'r cyhoedd a phartneriaid statudol fel ESTYN ac Awdurdodau Lleol cyfagos. Bydd hyn am gyfnod o 8 wythnos, gan sicrhau ein bod yn cyrraedd pawb, er taw yn rhithiol neu ar bapur fyddai hynny.

Mae Cymraeg 2050 yn cynnwys targed ar gyfer cynyddu cyfran pob grŵp blwyddyn ysgol sy'n derbyn addysg cyfrwng Cymraeg o 22% (yn seiliedig ar 7,700 o ddysgwyr saith oed yn 2015/16) i 30% erbyn 2031 (tua 10,500 ym mhob grŵp blwyddyn). Mae pob Awdurdod Lleol wedi cael targedau i'w cyrraedd yng nghydestun y Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg newydd. Mae targedau a osodwyd ar gyfer Sir Gaerfyrddin gan Lywodraeth Cymru yn gosod y Sir yn y categori mwyaf ymestynnol (ynghyd â Chonwy, Sir Ddinbych, Powys, Ceredigion, Sir Benfro a Chastell-nedd Port Talbot). Mae Llywodraeth Cymru wedi gofyn am gynnydd o 10-14% yng nghanran y plant Blwyddyn 1 sy'n cael eu haddysgu drwy gyfrwng y Gymraeg yn seiliedig ar 2019/20.

PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL dderbyn yr adroddiad.

5. CYNNIG I AIL-LEOLI YSGOL HEOL GOFFA I SAFLE NEWYDD A CHYNYDDU EI GALLU O 75 I 120 (CAM 3)

Ystyriodd y Pwyllgor adroddiad yn manylu ar gynnig i symud Ysgol Heol Goffa i safle newydd a chynyddu ei chapasiti o 75 i 120 (Cam 3) o fis Medi 2023. Yn unol â chyfarwyddiadau'r Bwrdd Gweithredol ar 18 Tachwedd, cafodd ymgynghoriad ffurfiol ei gynnal o 21 Medi 2020 hyd at 1 Tachwedd 2020. Cafodd canlyniadau'r ymarfer ymgynghori eu cynnwys mewn Adroddiad Ymgynghori ac fe'u cyflwynwyd i'r Pwyllgor Craffu ac yna i'r Bwrdd Gweithredol i'w hystyried a phenderfynu a ddylid cyhoeddi Hysbysiad Statudol ai peidio.

Ar 21 Rhagfyr 2020, roedd y Bwrdd Gweithredol wedi cymeradwyo cyhoeddi Hysbysiad Statudol a roddai i wrthwynebwyr 28 diwrnod i gyflwyno eu

gwrthwynebiadau'n ysgrifenedig i'r Cyngor. Nid oedd unrhyw wrthwynebiadau wedi dod i law yn ystod y cyfnod hwnnw.

Pe bai'r Cyngor Sir yn cytuno i weithredu'r cynnig, byddai capasiti Ysgol Heol Goffa yn cynyddu o 75 i 120 wedi i'r ysgol symud i'w safle newydd o fis Medi 2023 ymlaen.

Cafwyd y sylw canlynol ar yr adroddiad:-

- Gwnaed sylw a nodai, er bod hon yn ysgol arbennig ar wahân, y dylent gael y profiadau llawn fel plant prif ffrwd. Dywedodd y Cyfarwyddwr fod polisi cynhwysol ar waith sy'n cael ei gefnogi yn ein hysgolion prif ffrwd yn ogystal ag Unedau Arbennig, a'i bod yn ffodus bod lleoliad newydd yr ysgol yn agos i Ysgol Penrhos ac y bydd gweithio'n digwydd ar gysylltiadau rhwng yr ysgolion hyn, ac, o bosibl, ysgolion uwchradd eraill yn Llanelli.

PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL

(1) derbyn yr adroddiad;

(2) argymhell i'r Bwrdd Gweithredol y dylid gweithredu'r cynnig i symud Ysgol Heol Goffa i safle newydd a chynyddu ei capasiti o 75 i 120 o fis Medi 2023, fel y nodir yn yr Hysbysiad Statudol.

6. EGLURHAD AM BEIDIO Â CHYFLWYNO ADRODDIAD CRAFFU

Cafodd y Pwyllgor esboniad dros beidio â chyflwyno'r adroddiadau craffu canlynol:-

- Hunanwerthuso'r Adran a Strategaeth 10 Mlynedd
- Cynllun Gweithredu Trawsnewid ADY
- Cynlluniau Busnes Adrannol

PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL nodi'r wybodaeth.

7. EITEMAU AR GYFER Y DYFODOL

Ystyriodd y Pwyllgor restr o eitemau i'w hystyried yn y cyfarfod nesaf a gynhelir ar 21 Ebrill 2021. Rhoddwyd cyfle hefyd i'r Pwyllgor awgrymu eitemau i'w trafod ar gyfer y Flaenraglen Waith am y cyfnod o 8 mis rhwng Mai a Rhagfyr, 2021. Ymhlith yr eitemau a awgrymwyd heddiw i'w trafod y mae:-

- Hunanwerthuso – edrych ar hyn am y 6 mis nesaf.
- NEET – effaith bosibl colli arian Ewropeaidd
- Strwythur yr Adran
- Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg - cymryd rhan yn y broses gorfforaethol o ran y cynllun newydd
- Llesiant ac Iechyd Meddwl / COVID - cadw llygad ar hyn wrth i ysgolion ddychwelyd yn amser llawn. Mae Llywodraeth Cymru yn derbyn bod angen edrych ar neilltuo rhagor o adnoddau i Iechyd Meddwl yn gyffredinol, ac er mwyn gwella ein sefyllfa fel Pwyllgor yn y dyfodol mae'n bosibl y bydd angen y data diweddaraf.
- Rhaglen Moderneiddio Addysg - sut ydym yn ei chyllido?

- Ymgynghori ynghylch Newidiadau i Ysgolion – edrych ar sut mae'r Cyngor yn rhannu'r neges / ymgynghoriad ynghylch amcanion strategol gydag ysgolion ar draws y sir, o ran cau ysgol, newid yr iaith ddysgu ac ati.

Bydd y Cadeirydd a'r Is-gadeirydd yn cyfarfod â'r Cyfarwyddwr i roi sylw i rai o'r syniadau a awgrymwyd cyn cyflwyno'n ôl i'r Pwyllgor i'w mabwysiadu'n derfynol

PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL nodi'r wybodaeth.

8. LLOFNODI YN GOFNOD CYWIR COFNODION Y CYFARFOD A GYNHALIWYD AR IONAWR 28AIN, 2021

Tynnwyd sylw at dud.38 (Eitem 4 ar yr Agenda) ynghylch codiad cyflog, a ddylai ddarllen "byddai cost *lawn* hyn yn cael ei thalu gan yr Awdurdod Lleol".

PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL lofnodi bod cofnodion cyfarfod y Pwyllgor a gynhaliwyd ar 28 Ionawr 2021 yn gofnod cywir.

CADEIRYDD

DYDDIAD